Mumbles Community Council

Minutes of Meeting of the Finance and Compliance Committee held on 21st September 2026 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

Councillors Present: Tim Zhou (Chair), Ian Scott, Phil Keeton and Martin O'Neill.

Officers Present: Ian Hughes – CSO

FI2609-01	**Apologies:** Cllr Townsend-Jones and Pam Erasmus
FI2609-02	**Declarations of Interest:** None
FI2609-03	**Minutes of the Previous Meeting of the Committee** To approve the minutes of the meeting held on 16th June 2026 as a true record. **RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 16th June 2026 as a true record.
FI2609-04	**Outstanding Actions from Previous Meeting** Outstanding actions outlined by the CSO. **RESOLVED** outstanding actions updated, and new actions to be recorded in 'outstanding action' report by CSO.
FI2609-05	**Budget Monitoring Reports to 31/07/2026 - Paul Beynon, RFO** **Reports attached.** Financial reports prepared by RFO Paul Beynon who when circulating them prior to the meeting indicated that the reports only covered the period until May 2026 and not July 2026 as indicated in the agenda.

Mumbles Community Council

	Whilst no queries arose in relation to the financial reports, Cllr Phil Keeton proposed that a virement of £1,000 be made from the Training Courses and Associated Costs Budget to cover the deficit of £1,000 in the West Cross Youth Club Annual Grant. RECOMMENDED: That a virement of £1,000 be made from the Training Courses and Associated Costs Budget to cover the deficit of £1,000 in the West Cross Youth Club Annual Grant. **RESOLVED** to approve the above reports
FI2609-06	**Budget 2026/2027** A report had been prepared and circulated to Councillors by RFO Paul Beynon in relation to the budget timetable. Councillors agreed with the contents of the report but were mindful that a new RFO is to be appointed imminently. Whilst budget proposal forms will need to be submitted Councillors were also mindful of Council Elections next year. **RESOLVED:** To accept the above report provided by The RFO and submit budget proposal forms within the agreed timescale.
FI2609-07	**Mumbles Rugby Club Grant Application** Grant Application for £4,500 to contribute towards the running costs of the 'Crackers 7' Event The Committee were supportive of this application but noted that the 'scoring' sheet on the application was missing. **ACTION**: 'Scoring' sheet to be provided for Full Council when considering whether they approve the recommendation. **RECOMMENDED** That a Grant Application to Mumbles Rugby Club for £4,500 be awarded to contribute towards the running costs of 'Crackers 7' Event From **Budget FC1** Small and Medium Grants.

Mumbles Community Council

FI2609-08	**Shelter Cymru Grant Application** Grant Application for £500 to contribute towards helping people in need of housing The Committee were concerned about the lack of information provided in the application form. **ACTION:** Applicant to be contacted and the following information to be sought:- • What are the outcomes sought. • What support is being sought. • What contributions including both in terms of financial and time spent are the applicants making. • Is there any evidence of past success with MCC or other organisations providing funding. **RECOMMENDED** To defer this application until a future Meeting, pending further information being provided by the applicant as set out above.
FI2609-09	**Annual Grants Report** The Committee noted the grant report, which had been circulated to Councillors prior to the meeting. Councillors were grateful for the information but considered that in future an enhanced timeline including dates of approval and completion for grants would be beneficial. **ACTION:** Dates of approval and completion for grants to be included within future reports. **RESOLVED** To accept the above report. Cllr Phil Keeton left the meeting at 6.50pm

Meeting Finished at 6.51.pm

Next meeting: 19th October 2026

Mumbles Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 21 Medi 2026 am 6.30 pm
Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

Cynghorwyr yn bresennol: Tim Zhou (Cadeirydd), Ian Scott, Phil Keeton a Martin O'Neill.

Swyddogion yn bresennol: Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

FI2609-01	**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Townsend-Jones a Pam Erasmus
FI2609-02	**Datganiadau o fuddiant:** Dim
FI2609-03	**Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2026 fel cofnod cywir. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2026 fel cofnod cywir.
FI2609-04	**Camau gweithredu heb eu cwblhau o'r cyfarfod blaenorol** Amlinellwyd y camau gweithredu heb eu cwblhau gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau. **PENDERFYNWYD** diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau, a chofnodi camau gweithredu newydd yn yr adroddiad ar 'y camau gweithredu heb eu cwblhau' gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

Mumbles Community Council

FI2609-05	**Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2026 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol** **Yr adroddiadau wedi eu hatodi.** Paratowyd yr adroddiadau ariannol gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Paul Beynon. Pan ddosbarthodd yr adroddiadau cyn y cyfarfod, nododd mai'r cyfnod hyd at fis Mai 2026 yn unig yr oeddent yn ei gwmpasu ac nid hyd at fis Gorffennaf 2026 fel y nodwyd yn yr agenda. Er na chodwyd unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r adroddiadau ariannol, cynigiodd y Cynghorydd Phil Keeton y dylid trosglwyddo £1,000 o Gyllideb Cyrsiau Hyfforddi a Chostau Cysylltiedig i gwmpasu'r diffyg o £1,000 yng ngrant blynyddol Clwb Ieuenctid West Cross. ARGYMHELLWYD: Bod trosglwyddiad o £1,000 yn cael ei wneud o Gyllideb Cyrsiau Hyfforddi a Chostau Cysylltiedig i gwmpasu'r diffyg o £1,000 yng ngrant blynyddol Clwb Ieuenctid West Cross. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiadau uchod
FI2609-06	**Cyllideb 2026/2027** Paratowyd adroddiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, mewn perthynas ag amserlen y gyllideb, ac fe'i dosbarthwyd i'r cynghorwyr. Roedd y cynghorwyr yn cytuno â chynnwys yr adroddiad, ond roeddent yn ymwybodol o'r ffaith y bydd Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd yn cael ei benodi'n fuan. Er y bydd angen cyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb, roedd y cynghorwyr hefyd yn ymwybodol o etholiadau cyngor y flwyddyn nesaf. **PENDERFYNWYD:** Derbyn yr adroddiad uchod a ddarparwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a chyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.
FI2609-07	**Cais grant Clwb Rygbi'r Mwmbwls** Cais am grant o £4,500 i gyfrannu at gostau rhedeg y digwyddiad 'Crackers 7' Roedd y pwyllgor yn gefnogol i'r cais hwn, ond nodwyd bod taflen 'sgorio' y cais yn absennol. **CAM GWEITHREDU**: Taflen 'sgorio' i'w darparu i'r cyngor llawn er mwyn ystyried a ydynt yn cymeradwyo'r argymhelliad.

Mumbles Community Council

	ARGYMHELLWYD Bod cais am grant i Glwb Rygbi'r Mwmbwls am £4,500 yn cael ei ddyfarnu i gyfrannu at gostau rhedeg y digwyddiad 'Crackers 7' O **gyllideb FC1** Grantiau Bach a Chanolig.
FI2609-08	**Cais am grant gan Shelter Cymru** Cais am grant o £500 i gyfrannu at helpu pobl y mae angen tai arnynt Roedd y pwyllgor yn bryderus am y diffyg gwybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gais. **CAM GWEITHREDU:** Cysylltu â'r ymgeisydd a gofyn am yr wybodaeth ganlynol:- • Beth yw'r canlyniadau a geisir. • Pa gefnogaeth a geisir. • Pa gyfraniad, gan gynnwys yn ariannol ac o ran amser, y mae'r ymgeiswyr yn eu gwneud. • A oes unrhyw dystiolaeth o lwyddiant yn y gorffennol gyda Chyngor Cymuned y Mwmbwls neu sefydliadau eraill sy'n darparu cyllid. **ARGYMHELLWYD** gohirio'r cais hwn ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, hyd nes y bydd yr ymgeisydd wedi darparu rhagor o wybodaeth, fel y nodir uchod.
FI2609-09	**Adroddiad blynyddol ar grantiau** Nododd y pwyllgor yr adroddiad grantiau, a oedd wedi'i ddosbarthu i'r cynghorwyr cyn y cyfarfod. Roedd y cynghorwyr yn ddiolchgar am yr wybodaeth, ond roeddent o'r farn y byddai cael amserlen well yn y dyfodol, a fyddai'n gynnwys dyddiadau cymeradwyo a chwblhau grantiau, yn fuddiol. **CAM GWEITHREDU:** Dyddiadau cymeradwyo a chwblhau grantiau i'w cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. **PENDERFYNWYD** Derbyn yr adroddiad uchod. Gadawodd y Cynghorydd Phil Keeton y cyfarfod am 6.50pm

Daeth y cyfarfod i ben am 6.51pm
Y cyfarfod nesaf: 19 Hydref 2026

Mumbles
Community Council